

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 10.04.24 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: David Griffiths – Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is Gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Keith Carroll (KC), Jen Warne (JW), Jane Lawrence (JL), Louise Hughes (Cyngorydd Sirol) LH, a Jane Jenkins – Clerc (JJ).

1. **Ymddiheuriadau:** Ian Williams (IW), Geraint Micah (GM), Meg Griffiths (MG) a Nikki Roberts (NR).

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Datgan Diddordeb: Dim.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20.03.24.

Cynnig: GE **Eiliwyd:** HD **Arwyddwyd:** DG.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 20.03.24:**

- a) **Llwybr Cyhoeddus/Ffordd Ddiddosbarth (Sunbeach)** – JJ yn rhoi gwybod am e-bost gan GLASS (Paolo). Cytunodd pawb y dylem weithredu ar ei gynnwys. JJ i anfon y llythyrau perthnasol, ac ar ol derbyn ymatebion i'r llythyrau, cysylltu â'r Ombwdsmon.
- b) **Ceg yr Afon Gwrl Llwyngwril (mynediad i'r traeth)** – Cadarnhaodd JJ ei bod wedi cysylltu â 5 cwmni i ddarparu dyfynbrisiau gyda dyddiad cau o 10.04.24 wedi'i roi. Dim ond 2 oedd wedi ymateb, sef A&M Lloyd a Geraint Micah. Ar ôl trafodaeth, cynigiodd KC y dylid dyfarnu'r contract i GM a chytunodd pawb a oedd yn bresennol. Er gwaethaf gwahaniaeth o £10, roedd dyfynbris GM yn caniatáu llogi peiriannau am ddau ddiwrnod, a fyddai'n fuddiol pe bai unrhyw broblemau. JJ i gysylltu â Chyngor Gwynedd eto gyda chopi o'r dyfynbris i weld os oes cymorth ariannol ar gael.
- c) **Materion Afon Gwrl (Dŵr Cymru):** HD yn hysbysu bod Dŵr Cymru wedi cysylltu ag ef, a ddywedodd fod gwaith sylweddol wedi'i gynllunio i ddargyfeirio'r garthffos o dan y rheilffordd ac yn syth i lawr i Borthwen. JJ i wneud ymholiadau ynghylch y rhaglen waith.
- c) **Dyfyniadau/Tendrau** – Dim ond 3 ymateb, sef David Griffiths, Clive Jones (Cyngor Gwynedd) a Tim Kendall. Gadawodd DG y cyfarfod tra bod dyfyniadau'n cael eu trafod, a gwnaed penderfyniad. Clive Jones, Cyngor Gwynedd enillodd contract y Cae Chwarae, Llwyngwril, a David Griffiths enillodd contract Llwybr y Perthi, Llwybr y Crynwyr a'r Cof Golofn. Tim Kendall yn aflwyddiannus. JJ i anfon llythyrau yn i'r tri hefo'r canlyniadau, a gofyn am gopi o'i yswiriant os nag ydi wedi eu derbyn.
- d) **IRPW** – Yn ystod trafodaethau blaenorol, cafwyd penderfyniad unfrydol na fyddai unrhyw hawliadau yn cael eu gwneud mewn perthynas â lwfans blynyddol hyd at £156, nwyddau traul swyddfa o £52 na theithio. Cadarnhaodd y rhai a oedd yn bresennol fod y penderfyniad yn parhau, a llofnodwyd y ffurflenni "Optio Allan". Aelodau ddim yn bresennol yn y cyfarfod yma i roi ei penderfyniad nhw yn y cyfarfod nesaf.
- e) **Diffibriliwr** – Adroddodd JJ fod Mike Senior wedi cadarnhau, yn dilyn cyfarfod mis diwethaf, fod ganddynt 2 Ymatebwr Cyntaf newydd ac y byddai hyn yn cyfyngu nifer y diffibrilwyr sydd ar gael. Byddai'n dychwelyd atom pan fyddai ganddo fwy o wybodaeth. Mae bellach wedi cadarnhau mai dim ond un sydd ar gael ac mae angen gwybod pwy fydd yn ei dderbyn. DG a JW i symud ymlaen gyda chodi arian. DG i dderbyn y diffibriliwr a chytuno ar ddyddiad cyfleus i'r ddwy ochr. JJ i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd (Adran Goleuadau Stryd) ynglŷn â chyflenwad trydan a pholyn. Bydd y diffibriliwr hwn yn cael ei osod ger Gwastadgoed, Llwyngwril.
- f) **Cymeradwyo newid i'r ddogfen "Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau"**
Gwiriodd HD y newid yr oedd wedi gofyn amdano a chymeradwywyd y ddogfen.

5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

- a) Derbynwyd e-bost gan yr URDD ynghlyn a Cronfa i Bawb. Cytunwyd y byddai DG yn rhoi'r e-bost a'r ddolen ar dudalen "Llwyngwrl Appreciation Group" fel y gallai unrhyw un gyflwyno cais os y dymuna.

6. Materion Cynllunio:

- **NP5/69/304B** Y Berth, Llwyngwrl – dim sylwadau i'w cyflwyno.
- **NP5/69/348G** Tir ger Machlud Haul – dim sylwadau i'w cyflwyno.
- **Cais Trwyddedu ar gyfer Hendre Hall** – Dim gwrthwynebiad.

Fodd bynnag, codwyd pryderon yn dilyn yr "arwerthiant cist car" gan fod cerbydau wedi parcio ar hyd y ffordd fawr ger Hendre Hall, a oedd wedi achosi problemau traffig ac wedi cyflwyno mater diogelwch gyda phlant ifanc yn defnyddio'r cae chwarae.

JJ i gysylltu â'r Adran Briffyrdd, Cyngor Gwynedd, i holi ynghylch llinellau igam ogam melyn i'w gosod yn y safle yma.

7. Adroddiad Ariannol:

- a. **Adroddiad Ariannol hyd at 31 Mawrth 2024** – Ar ôl i ddiwygiad i wall teipio gael ei wneud, cytunwyd bod hwn yn gyfrif cywir ac fe'i cymeradwywyd. **Cynnig: JW Eilydd: GE Arwyddwyd: DG.**
- b. **Taliadau** – Sieciau am Gyflog y Clerc (31/03/24), Treth Incwm - HMRC (31/03/24), ac Un Llais Cymru i adnewyddu aelodaeth eleni (10/04/24).

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:

LH yn hysbysu nad oedd wedi mynychu unrhyw gyfarfodydd ac eithrio cyfarfod zoom gyda Phwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian pan oedd wedi gobeithio siarad â Steffan Jones ynghylch gwaith ffordd rhwng Friog a Llwyngwrl. Nid oedd ef wedi bod ar gael, felly roedd hi wedi gofyn iddo gysylltu â hi.

'Roedd wedi dweud, yn syml, nad oedd yn gallu rhoi diweddariad manwl ar hyn o bryd. Cadarnhaodd fod y ffens ddiogelwch yn perthyn i Gyngor Gwynedd a bod Network Rail yn araf ymdrin ag atebolrwydd asedau.

'Roeddem yn ymwybodol o hyn eisioes.

10. Unrhyw Fater Arall:

- Gofynnodd JJ amdan sefyllfa arolygu cyflwr meinciau cyhoeddus y Cyngor Cymuned a bod ? angen eu diweddaru? Cytunodd GE, KC a HD i wneud arolygiad or meinciau.
- Darparodd JJ wybodaeth gan gynnwys prisiau hysbysfyddau ar gyfer Rhoslefain. Nid yw'n glir os oes angen newid y pyst neu'r bwrdd yn unig. Bydd GE, KC a HD yn edrych yn fanylach ar gyflwr y pyst a'r hysbysfwrdd pan yn Rhoslefain yn cynnal yr arolwg cyflwr y meinciau. JJ i edrych i weld a oes unrhyw grantiau ar gael i gynorthwyo gyda'r gost.
- Darparodd JJ wybodaeth ynglyn â chwmnïau sy'n arbenigo mewn matiau diogelwch i roi o dan offer chwarae plant yn y cae chwarae. Darparodd GE enw a rhif ffôn cwmni lleol i JJ, a dylid gysylltu ag ef hefyd. JJ i gysylltu â phob cwmni a sefydlu a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn mynychu'r safle i roi pris am y matiau. Manylion GE a HD i'w trosglwyddo gan y byddai'r naill neu'r llall yn hapus i gwrdd â nhw ar y safle.
- Cododd GE bwnc y goeden Nadolig byramid "metel" a gofynnodd am gymorth i roi manyleb at ei gilydd – h.y. maint, dyluniad, gosod ag ati. Cynigiodd HD a KC gymorth gyda hyn.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Cyfarfod Blynyddol - Nos Fercher - 15.05.24 - am 7 yh - Y Ganolfan, Llwyngwrl

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad